Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Cynghorydd (Enw)

# Aelod Ward Etholedig – (Enw'r Ward)

### Disgrifiad o'r Swydd

## 1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I etholwyr y ward

## 2 Diben y Swydd a'r Gweithgareddau

- **Cynrychioli a chefnogi cymunedau**

  - Cynrychioli buddion y ward
  - Bod yn eiriolwr dros y Cyngor yn y ward a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu
  - Cyfathrebu â'r gymuned ar strategaethau'r cyngor, ei bolisïau, ei wasanaethau a'i weithdrefnau.
  - Cynrychioli etholwyr unigol a sefydliadau lleol, cynnal gwaith achos ar eu rhan a gwasanaethu pawb yn deg ac yn gyfartal
  - Cysylltu ag aelodau gweithredol, aelodau eraill o'r cyngor, swyddogion y cyngor a sefydliadau partner i sicrhau bod anghenion cymunedau lleol yn cael eu hadnabod, eu deall a'u cefnogi
  - Bod yn wyliadwrus a gwneud popeth posibl i amddiffyn oedolion a phlant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin
  - Hyrwyddo goddefgarwch a chydlyniad mewn cymunedau lleol

- **Gwneud penderfyniadau a goruchwylio perfformiad y cyngor**

  - Cymryd rhan mewn cyfarfodydd y Cyngor Llawn, cyrraedd a gwneud penderfyniadau call a chytbwys, a goruchwylio perfformiad
  - Cymryd rhan wrth wneud penderfyniadau call a chytbwys ar bwyllgorau a phaneli y gallent fod yn rhan ohonynt o bosibl
  - Glynu at egwyddorion democratiaeth a chyfrifoldeb ar y cyd wrth wneud penderfyniadau
  - Hyrwyddo a sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn narpariaeth gwasanaethau'r cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill
  - Gweithredu o fewn fframwaith cyllidebol y Cyngor

- **Llywodraethu mewnol, safonau moesol a pherthnasau**

  - Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da'r Cyngor a'i waith

- Cynnig arweinyddiaeth cymunedol a hyrwyddo dinasyddiaeth actif
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraeth agored a thryloyw
- Cefnogi, a glynu at berthnasau parchus, priodol ac effeithiol gyda chyflogeion y Cyngor

- Glynu at God Ymddygiad Aelodau, Protocol Aelodau/Swyddogion a'r safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus

- **Bod yn Rhiant Corfforaethol**

  - Deall cyfrifoldebau cyfreithiol aelodau etholedig dan Ddeddf Plant 2004 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fel rhiant corfforaethol plant dan ofal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

  - Fel rhieni corfforaethol, sicrhau eich bod chi'n siŵr bod dull effeithiol, cydlynol a holistig o ran bodloni anghenion plant sy'n derbyn gofal drwy bolisi a chynllunio.

**3 Cynrychioli'r Awdurdod**

- Cynrychioli'r Cyngor/Cabinet ar y Pwyllgorau canlynol a deall eu cylchoedd gorchwyl:

  - Cynrychioli'r Cyngor/Cabinet ar y cyrff allanol a'r sefydliadau partner allanol yn hyrwyddo buddion cymunedol a chydlyniad er budd i bawb a bod yn gyfarwydd â'u cylchoedd gorchwyl:

  - Cynrychioli a bod yn eiriolwr ar ran y Cyngor ar Gyrff Rhanbarthol a Chenedlaethol ac mewn digwyddiadau cysylltiedig (os cânt eu penodi)

  - Cynrychioli'r Awdurdod yn y swyddi hynny y byddwch yn cael eich penodi'n ffurfiol iddynt fel "Pencampwr"

**4 Datblygu Aelodau**

- Cydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau a chynnal y safonau ymddygiad a moeseg uchaf yn y ffordd yr ydych yn cynnal eich dyletswyddau.

- Cymryd rhan ymarferol mewn gweithgareddau Datblygu'r Aelodau sy'n cefnogi'ch rôl chi ac yn benodol y gweithgareddau hynny a nodir yn y broses Adolygiad Personol ac felly'n galluogi cyfranogiad llawn ac actif ym mhob mater o fewn eich swydd a'r cylch gorchwyl.

- Cymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu a datblygu i wella eich dealltwriaeth o'ch swydd pan cawsoch eich penodi i'r Pwyllgor neu gyrff allanol.

- Cymryd rhan weithredol mewn cyfleoedd datblygu a ddarperir i Aelodau gan yr Awdurdod.

## 5 Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

- Didwylledd a thryloywder
- Gonestrwydd ac unplygrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd

Llofnod: ______________________________ Dyddiad: ______________________